

Swydd Wag

# Arweinydd Hygyrchedd

Llawn Amser
£27,000 (37.5 awr / wythnos)
neu
Rhan-amser
£21,600 (30 awr / wythnos)

Rôl barhaol

Dyddiad cau 17/1/24

Hijinx

# CROESO

Diolch am wneud ymdrech i ddysgu mwy am Hijinx a'n swydd wag ar gyfer Arweinydd Hygyrchedd a Chyfathrebu. Rydym yn awyddus i rannu mwy gyda chi!

Yn y pecyn hwn, fe welwch ychydig o wybodaeth gefndir am Hijinx, a manylion llawn am y rôl a sut i ymgeisio.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm, mae teulu ehangach Hijinx yn bwysig iawn i ni ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cyfoethog a chefnogol, y gobeithiwn y bydd yn caniatáu i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym yn gweithio'n galed, yn chwarae'n galed ac yn chwerthin llawer!

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth neu gymorth cyn ymgeisio, neu os hoffech drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau mynediad i ganiatáu i chi gyfranogi'n llawn yn y broses gyfweld, cysylltwch â ni yn hr@hijinx.org.uk

Diolch am eich amser – rydym ni wir yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac archwilio sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch brwdfrydedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n gwaith.

*Sarah*

Sarah Horner, Prif Weithredwr



EIN GWELEDIGAETH

Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

EIN CENHADAETH

Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

AM HIJINX

Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

## RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...



Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru



**"Mae pobl ag anableddau yno i ddangos i bobl ein bod ni'n ddynol ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu diddanu gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud."**

Actor Hijinx bellach yn gweithio ar gynhyrchiad teithiol ar raddfa fawr

# ARWEINYDD HYGYRCHEDD: DISGRIFIAD SWYDD & CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL





Rydym yn recriwtio ar gyfer Arweinydd Hygyrchedd ar hyn o bryd i gefnogi Actorion Hijinx sydd wedi'u cyflogi'n broffesiynol. Mae hwn yn gyfle gwych i ymuno â'r cwmni theatr prysur a chyffrous hwn a chael effaith gadarnhaol.

Bydd y Arweinydd Hygyrchedd yn rheoli gwaith gweinyddol yn ymwneud â mynediad, yn enwedig i'n Hartistiaid sydd ag anableddau dysgu ac Awtistiaeth, gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth mynediad priodol i ffynnu yn eu swyddi fel gweithwyr creadigol proffesiynol.

Fel rhan o'n tîm gweinyddol, bydd y Arweinydd Hygyrchedd yn darparu'r cymorth sefydliadol hanfodol i gefnogi mynediad at ein holl weithgareddau ac yn cyflawni'r holl dasgau gweinyddol cysylltiedig mewn modd effeithlon ac amserol. Byddwch yn sicrhau y caiff ein holl gyfranogwyr eu cefnogi'n dda ac yn gysylltbwynt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â mynediad.

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

CEFNOGI CYFLOGAETH ACTORION

- Cydweithio â'r Pennaeth Datblygu Busnes (Castio) i ganfod gofynion mynediad ar gyfer swyddi y bydd actorion Hijinx yn ymgymryd â nhw y tu allan i Hijinx.
- Cydweithio â'r Pennaeth Datblygu Busnes (Castio), actorion Hijinx a'u teuluoedd/cynorthwywyr i gytuno ar gontractau a ffioedd a thaliadau ar gyfer gwaith.
- Dod o hyd i Alluogwyr Creadigol*, eu briffio a'u contractio i gefnogi artistiaid ar brosiectau creadigol allanol, o glyweliadau ymlaen.
- Cydweithio â thimau prosiectau a Galluogwyr Creadigol i drefnu logisteg, gan gynnwys teithio, cysylltu ag actorion Hijinx a'u teuluoedd a chynorthwywyr.
- Cynorthwyo Galluogwyr Creadigol i sicrhau y caiff gofynion mynediad artistiaid Hijinx eu bodloni er mwyn gweithio ar gynyrchiadau allanol.
- Cydweithio â'r tîm ehangach a Galluogwyr Creadigol yn Hijinx i sicrhau y caiff gofynion mynediad eu bodloni ar gyfer holl actorion Hijinx sy'n cymryd rhan mewn prosiectau mewnol.
- Cydweithio â phartneriaid ehangach o fewn y tîm a'r diwydiant i recriwtio a hyfforddiant Galluogwyr Creadigol llawrydd.
- Monitro a gwerthuso prosiectau i sicrhau arfer gorau o ran cefnogi actorion Hijinx.
- Cydweithio â Chyfarwyddwr yr Academi i gynorthwyo artistiaid i greu ac adolygu eu Gofynion Mynediad/amodau yn rheolaidd.



# CYFRIFOLDEBAU YN PARHAU

GWEINYDDU HUNANGYFLOGAETH

- Rheoli'r broses ar gyfer gwneud ceisiadau Mynediad i Waith (A2W) i Hijinx ar gyfer artistiaid a staff, gan gydweithio ag actorion Hijinx, eu teuluoedd/cynorthwywyr a thîm ehangach Hijinx.
- Rheoli ceisiadau newydd neu geisiadau adnewyddu ar gyfer grantiau A2W i artistiaid.
- Cynorthwyo ein hartistiaid i lenwi eu ffurflenni gwaith a ganiateir (PW1) yn ymwneud â chyflogaeth dan gymorth.
- Cynorthwyo ein hartistiaid a'u teuluoedd i gofrestru'n hunangyflogedig a llenwi hunanasesiadau, lle bo hynny'n berthnasol.
- Cynorthwyo ac eirioli dros artistiaid Hijinx mewn cyfarfodydd allanol achlysurol yn ymwneud â chyllid, budd-daliadau neu grantiau Hijinx, fel cyfarfodydd y Ganolfan Byd Gwaith.
- Cydweithio'n agos â'n hartistiaid ag anableddau dysgu ac Awtistiaeth a'u penodeion cyfreithiol, os yw'n briodol, i gefnogi hawliadau ac adroddiadau Credyd Cynhwysol neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Cynorthwyo ein hartistiaid wrth iddynt drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn gysylltiedig â'u gwaith gyda Hijinx.

CYLLID

- Rheoli'r holl anfonebau ar ran ein hactorion Hijinx a chyda nhw, gan gydweithio â'r tîm ehangach a'n Gweinyddwr a'n Rheolwr Cyllid i sicrhau y caiff artistiaid eu talu'n brydlon.
- Sicrhau bod unrhyw wybodaeth ariannol bersonol yn ymwneud ag artistiaid Hijinx yn cael ei storio'n systematig ac yn ddiogel yn unol â GDPR.
- Cyflwyno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall i artistiaid Hijinx mewn fformat clir a hygyrch (caiff hyfforddiant Hawdd ei Ddarllen ei ddarparu).

Y GYMRAEG, CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT, A CHYNALIADWYEDD

- Cefnogi a hyrwyddo defnydd teg o'r Gymraeg yn ein holl gyfathrebiadau.
- Gweithio â chydweithwyr ar draws y sefydliad i gyflawni ein cynlluniau cydraddoldeb strategol a sicrhau bod ein cyfathrebiadau yn hygyrch ac yn gynhwysol.
- Yn unol â'n Polisi Cynaliadwyedd, datblygu ac addasu gwaith i lynuat egwyddorion cynaliadwyedd a Llyfr Gwyrdd y Theatr.



# CYFRIFOLDEBAU YN PARHAU

ARALL

- Bod yn ymwybodol (cyn belled ag y bo'n rhesymol) o newidiadau i'r system fudd-daliadau a all effeithio ar actorion Hijinx (caiff hyfforddiant ei ddarparu).
- Cynrychioli Hijinx i randdeiliaid allanol a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygu mewnol neu allanol a ddarperir gan yr elusen.
- Bod yn wyliadwrus o ran diogelu, lles a llesiant actorion Hijinx a rhoi gwybod i Gyfarwyddwr yr Academi / Pennaeth Pawb (Arweinwyr Diogelu) am unrhyw faterion neu bryderon sylweddol gan ddilyn ein gweithdrefn diogelu (caiff hyfforddiant diogelu ei ddarparu).
- Sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau Hijinx, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â diogelwch, lles a diogelu actorion a gweithwyr llawrydd.

Mae gan Hijinx ymagwedd gydweithredol tuag at waith lle mae staff yn helpu ac yn cefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sydd ei hangen i sicrhau bod y cwmni'n rhedeg yn esmwyth ac yn cyflawni'r gwaith.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u rhestru ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall sy'n briodol i'w rôl yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell

* Mae ein Galluogwyr Creadigol yn mynd gyda'n hactorion ar y set ac i glyweliadau ac ymarferion. Mae gennym ni dîm o Alluogwyr Creadigol sy'n adnabod ein holl actorion yn dda – mae llawer ohonynt yn rhan o hyfforddiant perfformio parhaus yr actorion. Maent hefyd yn rhoi o'u hamser i wrando ar, a deall, anghenion unigol pob actor er mwyn cynnig cymorth wedi'i deilwra. Mae pob un o'n Galluogwyr Creadigol yn gweithio yn y diwydiannau creadigol, felly maent yn deall pwysau, beichiau a disgwyliadau bywyd ar set.

# Manyleb Yr Unigolyn 1

Yn Hijinx, rydym wedi ymrwymo i lunio tîm cryf ac amrywiol, felly os ydych yn meddwl bod gennych yr hyn sydd ei angen, ond nad ydych o angenrheidrwydd yn bodloni pob pwynt unigol yn y disgrifiad swydd, os gwelwch yn dda ymgeisiwch er hynny a dweud pam wrthym.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd** | | |
| Cyfathrebwr effeithiol a difyr sydd â sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol | X | |
| Sylw digyfaddawd i fanylion | X | |
| Rhywun trefnus, effeithlon, hyblyg ac addasadwy sy'n gallu ysgogi ei hun | X | |
| Sgiliau mathemateg sylfaenol da | X | |
| Yn hyddysg mewn cyfrifiadura, yn gallu dysgu a gweithio ag ystod o becynnau meddalwedd swyddfa | X | |
| Ymagwedd ragweithiol, hyblyg, amyneddgar a gweithgar tuag at waithx | X | |
| Yn gallu dechrau ar y gwaith a gweithio ar sawl prosiect ar yr un pryd, yn mwynhau amgylchedd gwaith prysur | X | |
| Yn gallu ymdrin â data a gwybodaeth broffesiynol mewn modd proffesiynol ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data | X | |
| Profiad o weinyddu neu brosesau ariannol | X | |
| Yn gallu meithrin a chynnal perthnasoedd mewnol ac allanol cadarnhaol ar bob lefel | X | |
| Yn gallu defnyddio eich menter eich hun heb fawr o oruchwyliaeth ac ymdrin ag ymholiadau arferol wrth iddynt godi, gan uwchgyfeirio at bobl eraill yn ôl yr angenx | X | |
| Siaradwr Cymraeg | | X |

# Manyleb Yr Unigolyn 2

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | | |
| Profiad o ddarparu cymorth gweinyddol mewn rôl debyg | X | |
| Profiad o ryngweithio â phobl ag anableddau dysgu, naill ai mewn lleoliad personol neu broffesiynol | X | |
| Profiad o ddiogelu mewn unrhyw leoliad | X | |
| Profiad o fewnbynnu data a chadw cofnodion cywir | X | |
| Profiad neu ddiddordeb mewn dysgu am brosesau sy'n ymwneud â budd-daliadau neu Fynediad i Waith | X | |
| Profiad o les a chefnogi llesiant pobl eraill | | X |
| **Agwedd** | | |
| Wedi ymrwymo i gynhwysiant a hygyrchedd | X | |
| Yn ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn bwyllog ac yn cyfrannu at ddod o hyd i ffordd ymlaen | X | |
| Yn dangos sensitifrwydd a pharch tuag at bobl eraill | X | |
| Yn aelod rhagorol o dîm gydag ymagwedd hyblyg at arferion gwaithx | X | |

# MANYLION CYTUNDEBOL

| | |
|---|---|
| Rheolwr Llinell: | Pennaeth Datblygu Busnes: Castio) / Rheolwr Cyllid |
| Hyd y contract: | Rôl barhaol<br>(cyfnod prawf o 6 mis) |
| Oriau: | Llawn amser (37.5 awr / wythnos)<br>neu<br>Rhan-amser (30 awr / wythnos) |
| Lleoliad: | Swyddfa Hijinx, Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd – gweithio hybrid ar gael |
| Cyflog a Buddion: | £27,000 (Llawn amser 37.5 awr)<br>neu<br>£21,600 (Rhan-amser 30 awr) |
| | Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith, cymorth i ddysgu Cymraeg, a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.<br>Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n agos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion yn cael ei fodloni yn y maes hwn. |
| Hawl i wyliau: | 25 niwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau banc statudol (pro rata ar gyfer rhan amser) |



NODIADAU CYFFREDINOL

- Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.
- Mae tîm Hijinx yn fach, ond yn ystwyth, ac yn cyflawni'n uwch o lawer na'r disgwyl, gyda chymorth criw rhyfeddol o weithwyr ar eu liwt eu hunain a gwirfoddolwyr.
- Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu rolau a bod y gorau y gallant fod.
- Anelwn at ymagwedd gydweithredol at waith lle mae aelodau staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei gynnal yn ddidrafferth a bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
- Mae'r Pecyn Swydd hwn yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a bydd angen agwedd hyblyg at rôl a thasgau'r swydd.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.
- Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.

itc Ethical Manager Member

DIM HILIAETH CYMRU

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. CV cyfredol sy'n sôn am eich profiad gwaith hyd yma – gwnewch yn siŵr eich bod yn amlygu profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

2. Llythyr eglurhaol – nad yw'n hwy na dwy ochr – sy'n dweud wrthym pam yr ydych yn ymgeisydd delfrydol a sut byddwch yn mynd ati i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

3. Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi'i llenwi – y dylid ei llenwi ar-lein yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at hr@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

**Bydd ceisiadau yn cau am 11.59pm 17/1/24**.
Trefnir cyfweliadau ar gyfer yr wythnos sy'n cychwyn ar 29/1/24

AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
Os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd, os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol eraill, neu os hoffech gael y wybodaeth am y rôl mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar info@hijinx.org.uk

**Cynllun Gwarant o Gyfweliad**

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Gwarant o Gyfweliad i ymgeiswyr sy'n cael eu tangynrychioli ar ein tîm.

Gallwch ofyn am gael eich ystyried dan ein Cynllun Gwarant o Gyfweliad os ydych yn unigolyn o'r Mwyafrif Byd-eang neu os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith negyddol tymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi ym manyleb y swydd, fe'ch gwahoddir i gyfweliad. Dim ond gyda thîm Adnoddau Dynol Hijinx a'r rheolwr recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad wedi ei warantu yn cael ei rannu. Os hoffech gael eich ystyried dan y cynllun, nodwch hyn yn eich llythyr esboniadol.

**Recriwtio Dienw**

Mae Hijinx yn gweithredu recriwtio dienw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad yr ymgeisydd yn ystod y broses llunio rhestr fer.

**Cwestiynau'r cyfweliad**

Er mwyn sicrhau bod ein proses gyfweld yn hygyrch i'r gronfa ehangaf o ymgeiswyr, byddwn yn darparu fformat a chwestiynau'r cyfweliad i ymgeiswyr ymlaen llaw.